# ATODLEN 2

## Diwygio Is-ddeddfwriaeth nad yw ym maes Addysg

### *Rheoliadau Byrddau Lleol ar gyfer Diogelu Plant (Cymru) 2006*

**20.**—(1) Diwygir Rheoliadau Byrddau Lleol ar gyfer Diogelu Plant (Cymru) 2006(**1**) fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1)—

(a) yn y diffiniad o "Bwrdd" yn lle "awdurdod gwasanaethau plant" rhodder "awdurdod lleol" ac yn lle "awdurdodau gwasanaethau plant" rhodder "awdurdodau lleol";

(b) hepgorer y diffiniad o "awdurdod gwasanaethau plant";

(c) mewnosoder yn y lle priodol yn ôl trefn yr wyddor—

"ystyr "awdurdod lleol", o ran Bwrdd, yw'r awdurdod neu'r awdurdodau a sefydlodd y Bwrdd;".

(3) Yn rheoliadau 3(1)(e) a 5(1) a (2) yn lle "awdurdod gwasanaethau plant" rhodder "awdurdod lleol".

(4) Yn y pennawd i reoliad 7 yn lle "Awdurdodau Gwasanaethau Plant" rhodder "Awdurdodau Lleol".

(5) Yn rheoliad 7(1) a (2) yn lle "awdurdod gwasanaethau plant" rhodder "awdurdod lleol".

(**1**) O.S. 2006/1705 (Cy.167) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2008/912.